Cyngor Bro Llanllwni
Adoddiad Cyfarfodydd Ionawr a Chwefror 2024

Cynhaliwyd y Cyfarfodydd yn Neuadd yr Eglwys, Llanllwni.
Roedd y Clerc wedi rhoi poster o'r agenda yn y Swyddfa Bost cyn y cyfarfodydd.

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfodydd.

PLISMONA
Nid oedd heddwas yn bresennol yn y cyfarfodydd.

Y CAE CHWARAE
Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi.
Roedd Cyngor Sir Caerfyrddin wedi archwilio'r adnoddau ar 05 Hydref 2023.

GWEFAN LLANLLWNI
Roedd Adroddiadu misol yn cael eu gosod ar y wefan ac yn ymddangos yn y wasg.

HYFFORDDIANT DIFFIBRILYDD
Roedd y diffibrilion yn eu lle erbyn hyn a hyfforddiant wedi'i drefnu.

CWTERION A DŴR AR Y FFORDD
Mae swyddogion y Cyngor Sir a'n cynrychiolydd etholedig ar y Cyngor Sir wedi derbyn yr holl gwynion a a ddaeth i sylw'r Cyngor Bro.

MANTOLEN
Cyflwynwyd y fantolen ddiweddaraf i'r Cynghorwyr.

BANCIO
Mae'n ymddangos y bydd yr helyntion diweddar yn sgil cau'r gangen leol o Fanc Lloyds yn cael ei datrys yn fuan.

PRAESEPT
Penderfynwyd cadw'r praesept yn ddigyfnewid.

Penderfynwyd cefnogi: Ambiwlans Awyr Cymru; Urdd Gobaith Cymru; Gwasanaethau Gwybodaeth a Chymorth Cancr.

Cynhaliwyd Cyfarfod ychwanegol yn Neuadd Gymunedol Llanllwni nos Iau 29 Chwefror 2024 8.00yh.

Trefnwyd y cyfarfod ychwanegol hwn er mwyn cynnal trafodaeth a chynllunio ymateb i gynllun Green Gen Cymru i godi llwybr peilonau Tywi – Teifi. Roedd Cynghorwyr Cyngor Bro Llanllwni yn gwrthwynebu'r prosiect arfaethedig ac am hysbysu Green Gen o hynny.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni nos Lun 11 Mawrth am 8.00yh.